Llyfrau

Fel y gwyddoch mae'n flwyddyn y llyfr, ond ar ddydd Gwener y 23ain cafwyd diwrnod y llyfr. Gosododd Mr John gystadleuaeth i'r plant i dynnu llun ei hoff gymeriad o lyfr gan ysgrifennu pwt o eglurhad. Aethpwyd ati yn frwdfrydig.

Glan Llyn

Bu Mr John a blwyddyn 6 yn mwynhau profiadau gwahanol a diddorol yng Nglan Llyn am bedwar diwrnod. Cafwyd haul a hwyl ar y trip – a Mr John fawr gwaeth ar ôl diffyg cwsg!!

Celtica

Mwynhaodd y dosbarthiadau Iau ddiwrnod yng Ngheltica Machynlleth. Cafwyd gweithdy drama dan arweiniad Rhys Lewis ynghyd ag ysgrifennu creadigol dan ofal Dr Rhiannon Ifans. Diwrnod i'w gofio!

Traws-gwlad

Aeth criw i lawr i redeg yn Nhraws-gwlad Ceredigion yn Aberaeron. Da iawn chi am wneud ymdrech dda i gorffen y cwrs. Llongyfarchiadau arbennig i Lydia Shaw, Christopher Evans a Sara Morgan am redeg mor arbennig a derbyn tystysgrifau.

Buddugol

Llongyfarchiadau i Rhys Fanning am ddod yn drydydd yn yr adran Celf a Chrefft am wneud tegan meddal yng nghystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Rydym yn disgwyl pethau gwych i ddod Rhys – dalia ati!